**COFNODION DRAFFT**

Cofnodion Cyngor nos Iau Rhagfyr 8 2022 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, C.L.Price, T.W.Jones, M.L.Hughes, M.Skerret.
Ymddiheuriadau: Liz Roberts, I.W Griffiths, C.Brewer.
Datgan Diddordeb. Dim
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 10.11.22, cynnig M.Skerrett, cefnogi M.W.Hughes.

Heddlu. Clerc wedi anfon at gyswllt gwahanol yn yr Heddlu yn dilyn gwybodaeth gan Liz Roberts, dim ymateb hyd yma.

Yr A470. Gwybodaeth gan Liz Roberts fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda John Morris cyswllt yr Heddlu gyda materion Gor-yrru Cymunedol i gael gwybod sut mae'r data yn cael ei ddatrus a'i ddosbarthu, h.y. gyda'r Heddlu a NMWTRA.

Cyngor Sir. Gweithwyr wedi bod yn cael golwg ar Allt Penrhiw, deallir fod dŵr yn broblem ar y ffordd ger Ffridd hefyd. Allt Cyfyng yn dal yn broblem. Cysylltu eto gydag Adran Trafnidiaeth CBSC i gael arwydd i rwystro ceir rhag teithio ar y ffordd gul tu cefn i Orsaf Pont y Pant..

Llwybrau. Atebiad gan Simon Rogers o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cadarnhau ei bod yn dal yn benderfyniad ganddynt i gael gwared a'r 'ystolion' y Gaeaf yma. Maent angen cysylltu gyda Cyrff eraill cyn gwneud hyn.

Pontydd yn yr Ardal. Dim i'w adrodd gan Liz Roberts ond mae hi'n ceisio mwy o wybodaeth gan CBSConwy gan y bydd angen torri coed eto yn y Gwanwyn yn ardal Roman, beth am gysylltu a Neil Dyson? Clerc wedi cysylltu â Bryn Shiland.

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim penderfyniad
Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad
3 Bron Llan - Dim gwrthwynebiad.
Cynllun Fferm Tanrallt - dim gwrthwynebiadau.
Gwalia - Dim i'w adrodd

Llifogydd. Yn anffodus nid yw 2 tirfeddiannwr yn barod i drafod â CBSConwy felly rhaid troi at Plan B, bydd swyddogion yn ymweld â'r Cyngor lleol i roi adroddiad wedi iddynt drafod y cynllun. Pwysig fod 'rhaw yn cael ei rhoi yn y ddaear', i sicrhau y bydd gwaith yn cymryd lle eleni.

Scottish Power. Dim i'w adrodd.

Sgip. Trefnwyd sgip ar gyfer Tachwedd 30, cafwyd cwynion nad oedd pobol yn gwybod amdani er fod y Clerc wedi hysbysu hyn mewn llefydd amlwg wythnos cyn y dyddiad. Rhaid ystyried eto sut i'w hysbysebu yn lleol.

Toiledau. Clerc wedi trafod gyda Zac ar gyfer agor y toiledau 24 awr y dydd, roedd ganddo peth pryderon a holodd oedd yswiriant ar gyfer hynny?

Y Gofgolofn. Tir y Gofgolofn yn edrych yn arbennig o dda ar gyfer Sul y Cofio, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ddiolchgar i bawb oedd wedi bod ynglŷn â hyn mewn unrhyw ffordd.

Gwaith yn y Fynwent. Roedd C.Brewer wedi paratoi adroddiad manwl am y gwaith yn y Gofeb, Goleuo'r goeden Nadolig a gwaith yn y fynwent a diolchodd y Cadeirydd am y manylion. Mae'r tywydd yn effeithio ar y gwaith wrth gwrs felly rhaid bod yn amyneddgar. Mae CBSConwy yn cymryd diddordeb mawr yn y gwaith o ochr y taliadau Grant a'r amserlen.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig T.W.Jones, cefnogi M.Skerrett a pawb o blaid. Bydd y taliad olaf o'r Archeb yn cael ei thalu ym mis Rhagfyr.

Coeden Nadolig. Cyrhaeddodd y goeden Nadolig yn ddiogel a'i gosod yn ei lle, mae diolch mawr i Connie, Cwmni a gweithwyr ALFA yn arbennig A Farrar ac i Ken a Sel gyda'r goleuadau. Bu'r noson troi'r goleuadau ymlaen yn llwyddiant gyda plant Ti a Fi yn gwneud y gwaith ac yn cael cwmni Sion Corn, hefyd mwynhawyd mins pei a gwin cynnes a chanu carolau.

Gwefan y Cyngor. Cadarnhaodd M.Skerrett fod oddeutu 400 ymweliad wedi bod ar y safle.

Llysiau'r Dial. Clerc wedi anfon at perchennog y tir ond heb gael ymateb, a fuasai yn syniad cael barn A.Farrar ALFA ar y sefyllfa?

Torri Coed. Deallwyd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn hwylus a dim problemau wedi ymddangos hyd yn hyn.

Llwybyr ger Chwarel Ty'n y Bryn. L.Roberts ddim yn bresennol i gael adroddiad ond y teimlad oedd mai angen camfa ar y safle yw'r ateb i'r broblem?

Dolwyddelan yn ei Blodau. Roedd C.Brewer wedi cadarnhau bod Grwp Dolwyddelan yn ei Blodau yn dod i ben a'u bod yn bwriadu trosglwyddo unrhyw arian oedd yn y coffrau i'r Cyngor Cymuned, diolchwyd yn fawr am hyn.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Ionawr 12fed.